



Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 9FED HYDREF, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Glaslyn - Y Ganolfan, Porthmadog**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(DOSBARTHWYD Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019)

## **AELODAETH:**

### **Cyngor Gwynedd:**

E. Selwyn Griffiths  
Alwyn Gruffydd  
Nia Wyn Jeffreys

Aelod Lleol  
Aelod Lleol  
Aelod Lleol

### **Aelodau Cyfetholedig:**

Cynghorydd Llywelyn Rhys  
I'w gadarnhau  
David Eastwood  
Dr John Jones-Morris  
Ian Roberts  
Robert Owen  
Peter Lunt Williams

Porthmadog Town Council Representative  
Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir  
Cynrychioli Buddiannau Harbwr  
Cynrychioli Buddiannau Hamdden  
Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol  
Cynrychioli Buddiannau Masnachol  
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Cricieth

### **Sylwedyddion:**

Gareth Thomas  
David Williams  
Cynghorydd Rob Triggs  
Peter Read

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

# RHAGLEN

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2019/20.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2019/20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nodi unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETH YR HARBWR

8 - 25

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 11 Mawrth, 2020.

---

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 6/3/19

---

### YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), ynghyd â David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi), Will Walker Jones (Sefydliad y Bâd Achub), Martin Parouty (Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw) a Wil Partington (Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli - ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Forkanul Quader (Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU:** Llywelyn Rhys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog) ynghyd â Mici Plwm ac Alwyn Roberts (Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli).

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. MATERION BRYD

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn derbyn rhybudd gan Gwmni Wynnes o ran y bwriad i long dramwyo yn yr harbwr yn fis Mehefin 2020 bod cyfarfod brys wedi ei drefnu gyda'r cwmni ar 7 Mawrth 2019. Ymhelaethodd bod y bwriad ynghlwm â gwaith trawsnewidyddion yn Trawsfynydd a Ffestiniog. Nododd nad oedd amserlen y bwriad yn cyd-fynd gyda amserlen a thymor prysur yr harbwr a chynhelir trafodaeth yn y cyfarfod o ran yr effaith ar yr harbwr a'r gwaith sylweddol ac angenrheidiol i alluogi'r llong i dramwyo yn yr harbwr ynghyd ag opsiynau tu allan i'r prif dymor. Cadarnhaodd y rhoddir diweddariad ar y bwriad yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor ar 9 Hydref 2019.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ni fyddai'r bwriad yn golygu costau i'r Cyngor. Ymhelaethodd y byddai cynnig efallai i rai perchnogion symud i Bwllheli neu i le nad oedd ar lwybr mordwyo'r llong.

Holodd aelod o ran cyfnod y gwaith. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn ddibynnol ar y llanw byddai'r gwaith am gyfnod o oddeutu 3 mis. Ychwanegodd y byddai'n cysylltu â'r Cadeirydd, busnesau lleol i'r harbwr a Chlwb Hwyllo Madog yn dilyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trafod gyda'r cwmni o ran budd cymunedol ond yn sicr y byddai'r cwmni yn gyfrifol am y costau.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bwriedir adolygu Is-ddeddfau'r Harbwr. Ymhelaethodd bod trafodaethau â'r Uned Gyfreithiol ac amserlen mewn lle, bwriadwyd i'r

is-ddeddfau newydd ddod yn weithredol yn fis Mai 2020. Cadarnhaodd y byddai adroddiad ar yr is-ddeddfau yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ar 9 Hydref 2019.

Holodd aelod yng nghyswllt y trefniadau ymgynghori. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'r ymgynghoriad yn eang, gan gynnwys Cymdeithas Hwyllo Cymru, Cyngor Tref Porthmadog, Tŷ'r Drindod ac Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau. Ychwanegodd y byddai rhybudd o'r ymgynghoriad yn ymddangos yn y papurau newydd.

Llongyfarchwyd Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub) a Will Walker Jones (Sefydliad y Bâd Achub) ar eu penodiad yn Gadeirydd a Rheolwr Gweithrediadau Gorsaf Bad Achub Cricieth.

### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2018, fel rhai cywir.

### 4. CYFLWYNIAD AR Y COD DIOGELWCH MOROL PORTHLADDOEDD

Croesawyd Mr Forkanul Quader o Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau.

Gosododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y cyd-destun, gan nodi bod y Gwasanaeth Morwrol wedi ymateb i argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad a dderbyniwyd gan Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau ar drefniadau a systemau diogelwch harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd a chydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol yn dilyn archwiliad yn 2017. Nododd ei werthfawrogiad o waith yr Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistri. Eglurodd y cynhaliwyd archwiliad dilynol ar 5-6 Mawrth 2019 lle nodwyd gan yr archwiliwr bod gan y Gwasanaeth seiliau cadarn gan nodi awgrymiadau i wella. Nododd bod holl aelodau'r Pwyllgorau Harbwr wedi derbyn gwahoddiad i'r Pwyllgor ar gyfer y cyflwyniad. Datganodd ei ddiolch am waith Forkanul Quader a'i arweiniad proffesiynol.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Forkanul Quader, nododd nad oedd y Cod yn statudol ond ei fod yn berthnasol a'r angen i systemau rheoli diogelwch ac asesiadau risg fod mewn lle a'u bod yn cyd-fynd â maint a gweithgareddau a wneir yn yr Harbwr. Rhestrod y ddeddfwriaeth berthnasol a nodir yn y Cod.

Nododd y prif bwyntiau canlynol o ran yr hyn a oedd angen sylw gan y Cyngor:

- Bod gan Harbwr Porthmadog statws fel Awdurdod Harbwr Cymwys, gan nad oedd llong fasnachol wedi mordwyo yn yr Harbwr ers 23 mlynedd, fe ddylai'r Cyngor ystyried os am barhau i ddal y statws a oedd yn golygu gofynion ychwanegol ar y Cyngor.
- Bod trefniadau adolygu mewnol wedi eu sefydlu ond bod gwaith gweithredol angen ei wneud gyda lle i'r Harbwr Feistri gydwethio.
- Bod angen adolygu Is-ddeddfau Harbwr Porthmadog er sicrhau eu bod yn cyd-fynd gydag arferion cyfredol.
- Efallai y gallai Harbwr Pwllheli gael ei eithrio o ran rhai gofynion yn ymwneud â llygredd.
- Bod Hafan Pwllheli yn creu incwm, gyda'r sianel yn culhau roedd yn anodd i gychod groesi a mordwyo i fyny'r sianel. Roedd angen cynnal arolwg hydrograffeg a gwneud gwaith carthu.

Cadarnhaodd bod gan y Gwasanaeth Morwrol arferion da iawn gan gynnwys y defnydd o telimetrics. Nododd bod ymrwymiad i'r system rheoli diogelwch gyda'r Deiliad Dyletswydd yn cymryd cyfrifoldeb ar dudalen gyntaf Cod Diogelwch Morol y Cyngor.

Nododd yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi ei fod wedi cyfarfod gyda'r archwilydd i drafod ei adroddiad a bod ambell i beth angen sylw. Ymhelaethodd ei fod yn eithaf hyderus y gellir ymateb i'r hyn a godwyd gan yr archwilydd. Eglurodd bod yr archwilydd wedi canmol proffesiynoldeb ac ymroddiad swyddogion y Gwasanaeth Morwrol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bwriedir cysylltu â Uned Gyfreithiol y Cyngor, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain i gyflwyno cais diddymu statws Harbwr Porthmadog fel Awdurdod Harbwr Cymwys. Eglurodd bod gwaith sylweddol a chyfrifoldeb o dan Ddeddf Peilota 1987 yn dod gyda'r statws ac ni fyddai diddymu'r statws yn atal llong rhag tramwyo yn yr Harbwr fel rhan o gynllun gwaith trawsnewidyddion yn Nhrawsfynydd a Ffestiniog. Nododd ei fod yn gobeithio byddai'r aelodau yn cefnogi'r bwriad.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai diddymu statws Harbwr Porthmadog fel Awdurdod Harbwr Cymwys yn golygu byddai Harbwr Porthmadog gyda'r un statws a'r harbyrau eraill dan reolaeth y Cyngor. Eglurodd yr archwilydd bod dau fath o statws sef, Awdurdod Statudol Harbwr ac Awdurdod Harbwr Cymwys, mi fyddai Harbwr Porthmadog yn parhau fel Awdurdod Statudol Harbwr. Nododd o ystyried nad oedd llong fasnachol wedi mordwyo yn yr harbwr ers 23 mlynedd, pam cadw'r statws a oedd yn golygu gofynion ychwanegol ar y Cyngor o ran hyfforddi.

Nodwyd gwerthfawrogiad o'r cyflwyniad.

#### **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

### **5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

Tywysodd yr Uwch Swyddog Harbyrau yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Rhagwelwyd y byddai archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr yn cael ei gynnal cyn cyfnod y Pasg, yn amodol ar ymrwymadau'r contractwr angorfeydd a'r amodau tywydd.
- Hysbysebair swydd Cymhorthydd Harbwr llawn amser yn Harbwr Porthmadog, byddai'r swyddog yn rhoi cymorth i'r Harbwr Feistr gyda'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn ogystal â gweithio yn harbyrau Aberdyfi ac Abermaw pan fod angen.

Rhannwyd crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd Chwefror 2019. Manylodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar y cyllidebau gan nodi bod yr incwm a gasglwyd, £10,754 yn is na'r targed incwm. Nododd y rhagwelwyd gorwariant o oddeutu £20,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 ond o ystyried maint a chyfrifoldebau'r Harbwr a bod adnoddau ariannol wedi eu hymrwymo ar gyfer cynnal a chadw a oedd yn fuddsoddiad yn yr Harbwr. Tynnodd sylw at ffioedd a thaliadau 2019/20.

Mewn ymateb i sylw gan aelod o ran incwm parcio Traeth y Greigddu, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod costau traethau yn cael eu cyllido dan gyllidebau traethau a nid oedd gwariant a incwm traethau yn rhan o gyllideb harbyrau.

Tynnodd aelod sylw bod swyddogion yr Harbwr yn gweithio ar adegau ar y traethau. Holodd os oedd yr oriau a dreulir yn cwblhau'r gwaith yn cael eu had-dalu o'r gyllideb traethau. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trefniant yn bodoli lle'r oedd swyddogion traethau a swyddogion yr Harbwr yn cydweithio ar adegau ar waith yn yr Harbwr ac ar y traethau er cyflwyno y budd gorau i drigolion Gwynedd yn unol â Ffordd Gwynedd.

Cyflwynodd Harbwr Feistr Porthmadog adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r materion mordwyo a gweithredol a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror

2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau yn ystod y cyfnod. Nododd bod bwi mordwyo rhif 10 wedi dod i'r lan, felly roedd Rhybudd i Forwyr wedi ei rhyddhau yn ychwanegol i'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad.

Nododd aelod ei fod yn braf gweld lluniau yn nodi gwerthfawrogiad o'r gwaith ynghlwm â'r morglawdd ym Morth-y-Gest gyda gwrthwynebwyr i'r bwriad bellach yn ei groesawu gan ei fod wedi gwella'r sefyllfa.

Nododd Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub bod arwyddion diogelwch Sefydliad y Bâd Achub a fwriedir eu gosod yn ardal Morfa Bychan yn arwyddion da iawn. Tynnodd sylw bod Bâd Achub Cricieth wedi achub 10 unigolyn oddi ar Fanc y Gogledd ger Traeth y Greigddu yn ystod 2018 a oedd yn ganran sylweddol o'r nifer o fywydau a achubwyd yn y Deyrnas Unedig ac lwerddon yn ystod y flwyddyn gyda 182 bywyd wedi eu hachub yn y cyfnod. Nododd aelod bod y Gwasanaeth yn un effeithiol a phwysig iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt y consesiwn hufen iâ, nododd Harbwr Feistr Porthmadog y byddai'r tendr yn cael ei hysbysebu yn ystod mis Mawrth. Ychwanegodd yr aelod ei fod yn awyddus i'r tendr gael ei hysbysebu mor fuan â phosib.

Nododd aelod mai'r Cynghorydd Nia Jeffreys oedd yn ymgymryd â'r gwaith Caru Port yn ei le a bod bwriad i ymestyn y goleuadau oedd wrth ochr Y Ganolfan i fynd o amgylch.

Derbyniwyd diweddariad gan Gynrychiolydd Buddiannau Hamdden ar Gynllun Clwb Hwyllo Madog i gynyddu nifer y pontwŷns yn yr harbwr. Nododd bod yr holl waith papur perthnasol o ran gosod y pontwŷns yn yr harbwr, gan gynnwys union safle'r prif estyniad a'r bysedd pontwŷn, wedi ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru. Eglurodd bod Clwb Hwyllo Madog wedi derbyn ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau y derbyniwyd yr holl waith papur perthnasol. Ymhelaethodd y bwriadwyd gosod y prif adrannau pontwŷn ychwanegol 24 medr a'r bysedd pontwŷn dechrau mis Ebrill, mewn pryd ar gyfer y tymor i ddod, ac fe gwblheir y gwaith gan Intermarine UK Limited.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## **6. CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR HARBWR**

Cyfeiriwyd at gyfansoddiad y Pwyllgor gan nodi bod y Pwyllgor wedi ei sefydlu o dan erthygl 6 Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998. Tynnwyd sylw bod dwy sedd wag, un sedd cynrychiolydd buddiannau perchnogion tir a sedd wag arall. Nodwyd y bwriedir cysylltu gyda Clwb Hwyllo Porthmadog o ran enwebu cynrychiolydd i'r sedd wag yn dilyn derbyn cais ganddynt.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y wybodaeth.**

## **7. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 9 Hydref, 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.35pm

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>9 Hydref 2019</b>
<b>TEITL</b>	<b>Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Uwch Swyddog Harbyrau</b>

## 1. Cyflwyniad.

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.
- 1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Ceir rhestr gynhwysfawr o grwpiau a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

## 2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod

- 2.1 Yn 2019/20 roedd ffigyrau angorfeydd yr Harbwr fel a ganlyn:-
- 2.2 Bu 128 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2019. Mae hyn yn cymharu â 131 yn 2018 a 135 yn 2017. Mae'n amlwg bod y ffigwr hwn wedi parhau'n gymharol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.
- 2.3 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, cafwyd gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid ym mhob un o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 2.4 Cofrestrwyd 887 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2019. Cofrestrwyd 33 o gychod yn Harbwr Porthmadog o gymharu â 38 yn 2018.
- 2.5 Cofrestrwyd 30 o Gychod Pŵer ym Morfa Bychan yn 2019.
- 2.6 Roedd 844 o gychod dŵr Personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2019.
- 2.7 Roedd 55 o gychod dŵr personol wedi'u cofrestru yn Harbwr Porthmadog a 184 wedi'u cofrestru ym Morfa Bychan, o gymharu â 200 y flwyddyn flaenorol.
- 2.8 Atodir copïau o'r holl ddata sy'n ymwneud â deiliadaeth a chofrestru.

## 3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod



harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordwyo, addaswydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

- 3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan Y Capten Forkanul Quader a'r Capten David Turner fel archwilwyr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol. Yn ystod yr archwiliad, cynghorwyd y Gwasanaeth o bethau ychwanegol y gellir eu gwneud i systemau presennol yn ei system rheoli diogelwch i gynorthwyo â chydymffurfiaeth â darpariaethau'r Cod.
- 3.1.3 Fel dilyniant i'r adolygiad cychwynnol, yn ystod y cyfnod rhwng 4 a 6 Mawrth 2019, derbyniodd y Gwasanaeth ymweliad pellach gan Y Capten Forkanul Quader i weld sut oedd yr ychwanegiadau a awgrymwyd wedi'u gweithredu. Wrth eu harchwilio, cynghorodd y Capten Quader ei fod yn fodlon bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ac yna fe roddodd gyflwyniad gerbron Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog i egluro darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd a chadarnhau ei ganfyddiadau.
- 3.1.4 Er bod y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ar gyfer yr Harbyrau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar addaswydd y Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau, er mwyn adolygu'r Cod Diogelwch i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol.

#### **4. Materion Staffio.**

Mae'r Awdurdod Harbwr yn falch o hysbysu'r Pwyllgor Ymgynghorol bod Mr Richard Hughes wedi'i benodi fel Harbwrfeistr Cynorthwyol llawn amser, wedi'i leoli yn Harbwr Porthmadog, i gynorthwyo'r Harbwrfeistr â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Yn flaenorol, roedd Mr Hughes, sy'n byw yn Llanbedrog, yn gweithio fel Prif Hyfforddwr Cychod Pŵer yn academi hwylio Plas Heli, yn Harbwr Pwllheli. Yn ôl yr angen, bydd Mr Hughes hefyd yn cynorthwyo â'r gwaith yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi.

#### **5. Materion Ariannol.**

- 5.1 Bydd crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd mis Medi 2019 yn cael eu rhannu yn y cyfarfod.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cyflogi Cynorthwy-ydd Harbwr llawn amser
- Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Prynu arwyddion diogelwch ar gyfer Borth-y-Gest
- Cwch Y Dwyfor. Buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch i gydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer a chynnal y cyfarpar codi.

Mae'r cwch hwn wedi'i leoli'n barhaol yn Harbwr Porthmadog i hwyluso'r gwaith o symud cymorthyddion mordwyo yn Sianel Porthmadog.

### 5.3 Ffioedd a Thaliadau 2019/20.

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Cychod Dŵr Personol ar gyfer 2020/21, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

Bydd copi drafft o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn cael ei rannu yn y cyfarfod.

- 6. Adroddiad yr Harbwrfeistr** Bydd Harbwrfeistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>9 Hydref 2019</b>
<b>TEITL</b>	<b>Adroddiad yr Harbwrfeistr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>M. Humphreys Harbwrfeistr Porthmadog</b>

## **H 1 Materion Mordwyo**

- 1.1 Yn gyffredinol, mae cwrs y sianel fordwyo i'r harbwr wedi aros yn gyson dros yr haf, gyda thwf banc tywod achlysurol yn arwain at un neu ddau o fân addasiadau i'r marciau mordwyo, yn enwedig yn yr ardal ger Borth-y-Gest.
- 1.2 Comisiynwyd cymorthyddion mordwyo bwi Rhif 1 a Rhif 3 i gynorthwyo morwyr i groesi'r bar tywod wrth y fynedfa i sianel Porthmadog. Rhagwelir y bydd angen bwiau ychwanegol yn y sianel i baratoi ar gyfer y tymor nesaf, yn ddibynnol ar symudiad y banciau tywod yn yr aber.
- 1.3 Bydd angen adnewyddu'r Bwi 'Fairway' dros y gaeaf ar yn amodol ar gymeradwyaeth Tŷ'r Drindod, bydd y bwi yn cael ei dynnu o'r sianel i'r diben hwn. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau bydd y bwi yn cael ei ddychwelyd i'r dŵr cyn gynted â phosib, yn amodol ar y tywydd ac argaeledd contractwr angorfeydd. Mae prynu marc dŵr diogel newydd (Bwi 'Fairway') yn y dyfodol, yn parhau i fod yn opsiwn i'r Gwasanaeth.
- 1.4 Mae'r cymhorthion mordwyo yn y sianel ger y ddynesfa at Harbwr Porthmadog wedi bod yn destun gwaith cynnal a chadw parhaus, gyda gwaith estynedig i'w wneud eto i adnewyddu a rhifo bwiau'r sianel. Bydd hyn yn rhan o raglen waith yr harbwrfeistr dros y gaeaf.
- 1.5 Ar hyn o bryd, mae dau (2) Rybudd Lleol i Forwyr mewn grym ar gyfer Harbwr Porthmadog.
  - 1.5.1 Rhybudd Lleol i Forwyr 12/19. Nid yw bwi cymhorthydd Mordwyo Rhif 8 yn safle 52°53.506' N 004°09.786'W yn ei leoliad priodol ar hyn o bryd.
  - 1.5.2 Rhybudd Lleol i Forwyr 13/19. Mae bwi cymhorthydd mordwyo dros dro (heb ei oleuo) wedi'i osod yn safle 52°54.571' N 004° 08.699' W i gynorthwyo morwyr i fordwyo ardal o dywod sydd wedi symud i'r sianel fordwyo.
- 1.6 Bydd y Gwasanaeth yn derbyn ei archwiliad blynyddol o Gymorthyddion Mordwyo yn yr Harbwr a dynesfa'r sianel gan staff Tŷ'r Drindod rhwng 14 ac 16 Hydref. Bydd y gwasanaeth yn derbyn adroddiad ar eu canfyddiadau wedi hynny.
- 1.7 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo llong gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Atgoffir morwyr hefyd y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn cyrraedd er mwyn derbyn yr wybodaeth fordwyo ddiweddaraf.

## H 2 Materion Gweithredol

- 2.1 Mae'r cwch, Dwyfor, wedi derbyn gwaith cynnal a chadw i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cod cychod gwaith gofynnol a'r rheoliadau cyfarpar codi. Yn benodol, roedd y cwch angen gwaith cynnal a chadw i'r injan wedi methiant pwmp hydrolog. Cyfanswm y gost i'r Gwasanaeth oedd £2250.00. O ganlyniad, ni fu modd defnyddio'r cwch am gyfnod, gan nad oedd partiau ar gael, o ystyried oedran y cwch a'i gyfarpar gweithredu.
- 2.2 Mae estyniad 24m i'r strwythur pontŵn presennol ym mherchnogaeth a rheolaeth Clwb Hwyllo Madog wedi'i osod yn yr harbwr, gan ddarparu cyfleusterau angori ychwanegol i aelodau'r clwb ac ymwelwyr.

## H 3 Cynnal a Chadw

- 3.1 Gwnaed gwaith Archwilio a Chynnal a Chadw i'r angorfeydd yn yr harbwr ar ddechrau'r tymor er mwyn i gontractwr yr angorfeydd amnewid unrhyw gyfarpar oedd wedi gwisgo. Canfuwyd bod angen amnewid cyfanswm o ddeg (10) cadwyn godi, ynghyd â sawl bwi angori, ac fe amnewidiwyd y cyfan am gost o £1560 i'r Gwasanaeth.
- 3.2 Mae gwaith tarmac bellach wedi'i gwblhau ar y ddynesfa i flaen yr harbwr o ardal y maes parcio sydd wedi'i leoli gyferbyn â Stryd Lombard. Mae gwaith tarmac o amgylch gwaelod y pyst newydd sy'n rhan o'r ffens fetel a'r giât fynedfa gysylltiedig rhwng swyddfa'r harbwr a chefn y Ganolfan hefyd wedi'i gwblhau.
- 3.3 Mae meinciau o gwmpas amgylchedd yr harbwr wedi cael eu hadnewyddu, gyda gwaith pellach i'w gwblhau. Mae'r gwasanaeth dal yn derbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr ac yn Borth-y-Gest ond dim ond llefydd cyfyngedig sydd ar gael. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n adolygu'r mater ac o ganlyniad, nid oes unrhyw geisiadau pellach yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- 3.4 Mae tiroedd yr harbwr wedi parhau i fod yn destun gwaredu ysbwriel, ynghyd â gwaith i gynnal a chadw'r ymylon glaswellt a'r gwrychoedd. Gyda chytundeb aelodau'r Ganolfan, staff yr harbwr sydd bellach yn cynnal a chadw'r ymylon glaswellt sy'n ffinio â llwybr cerdded yr harbwr sydd gyferbyn â wal y Ganolfan ar ochr yr harbwr. Yn ogystal, mae slipffordd yr harbwr hefyd wedi cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd.
- 3.5 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal a chadw sydd i'w chwblhau yn harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod mis Hydref 2019 - mis Chwefror 2020. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

## H 4 Materion Eraill

- 4.1 **Borth-y-Gest.** Mae plinthiau concriid wedi'u gosod ger blaen y maes parcio sy'n edrych dros y bae ac mae meinciau wedi'u gosod i ddarparu lle eistedd i bobl sy'n dymuno ymlacio a mwynhau'r amgylchedd.
  - 4.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i dacluso'r ardal laswelltog ym mhen pellaf y maes parcio lle mae nifer o gychod yn cael eu storio ar hyn o bryd, er gwaethaf y gwrthwynebiad lleol. Yn ystod y broses hon, bydd llongau nad ydynt yn addas i'r môr a

threlars rhydlyd yn cael eu symud oddi yno. Gobeithir, o'r diwedd, y bydd modd cwblhau'r gwaith hwn dros gyfnod y gaeaf.

- 4.2 **Arwyddion diogelwch RNLI.** Codwyd arwyddion diogelwch RNLI yn ardal Morfa Bychan i wella'r mesurau diogelwch. Mae proflenni arwyddion diogelwch RNLI, sydd i'w gosod yn ardal Morfa Bychan yn y pen draw, wedi cael eu derbyn a'u gwirio.
- 4.3 Mae'r Gwasanaeth wedi medru manteisio ar staff ar brofiad gwaith dros gyfnod yr haf gan eu bod wedi cynorthwyo staff yr harbwr i lanhau amgylchedd yr harbwr ym Mhorthmadog. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ddiolchgar am y cymorth y mae wedi'i dderbyn gan grwpiau ac unigolion lleol sydd wedi ymgymryd â gweithgareddau glanhau traethau ar draeth y Graig Ddu gerllaw.
- 4.4 **Is-ddeddfau Harbwr** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio ar ddiweddarau Is-ddeddfau Porthmadog ar y cyd ag Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.

## **H5 Digwyddiadau**

- 5.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Porthmadog yn 2019:
- Moveable Feast
  - Digwyddiadau a gweithgareddau a gynhaliwyd gan Glwb Hwyllo Madog, gan gynnwys Ras Rwyfo Cwch Hir Geltaidd rhwng Porthmadog a Phwllheli a digwyddiad elusenol i gefnogi'r RNLI.
  - Digwyddiad Beic Modur
  - Eto, ymwelodd nifer o gwmnïau ffilm a theledu â'r ardal o amgylch yr harbwr a Thraeth y Graig Ddu gerllaw.

**Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit**  
**Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations**

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli/ Hafan</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2014	22 Aberdyfi 1 Tywyn	65 Abermaw 5 Caerddaniel	20	36 Total Boat Care 1 Harbwr 47 Hafan	143	88 Abersoch 5 Machroes 3 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	250	693
2015	23 Aberdyfi 1 Tywyn	64 Abermaw a Caerddaniel	30	42 Total Boat Care 43 Hafan	157	76 Abersoch 1 Machroes 9 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	243	696
Tud. 14 2016	27 Aberdyfi 4 Tywyn	69 Abermaw	35	49 Total Boat Care 56 Hafan	183	101 Abersoch 20 Machroes 4 Morfa Nefyn 10 Nefyn 2 Aberdaron	174	734
2017	28 Aberdyfi 6 Tywyn	68 Abermaw	45	55 Total Boat Care 65 Hafan	165	122 Abersoch 10 Machroes 12 Morfa Nefyn 10 Nefyn 1 Aberdaron	151	738
2018	50 Aberdyfi 3 Tywyn	74 Abermaw	52	73 Total Boat Care 105 Hafan	200	188 Abersoch 9 Machroes 3 Morfa Nefyn 5 Nefyn 1 Aberdaron	160	923
2019	38 Aberdyfi a Tywyn	79 Abermaw	55	57 Total Boat Care 116 Hafan	184	137 Abersoch 5 Machroes 14 Morfa Nefyn 5 Nefyn 0 Aberdaron	153	843

**Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit**  
**Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations**


<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli Harbour</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2014	54 Aberdyfi 8 Tywyn	64 Abermaw 11 Caerddaniel	24	118 Total Boat Care 8 Harbwr 85 Hafan	19	115 Abersoch 3 Machroes 30 Morfa Nefyn 14 Nefyn 21 Trefor 19 Aberdaron	408	1001
2015	52 Aberdyfi 3 Tywyn	71 Abermaw a Caerddaniel	30	99 Total Boat Care 5 Harbwr 104 Hafan	14	92 Abersoch 4 Machroes 23 Morfa Nefyn 13 Nefyn 16 Trefor 12 Aberdaron	449	987
2016	58 Aberdyfi 7 Tywyn	81 Abermaw	37	115 Total Boat Care 4 Harbwr 119 Hafan	31	101 Abersoch 71 Machroes 27 Morfa Nefyn 14 Nefyn 10 Aberdaron	336	1011
2017	53 Aberdyfi 9 Tywyn	66 Abermaw	37	103 Total Boat Care 3 Harbwr 117 Hafan	29	125 Abersoch 40 Machroes 48 Morfa Nefyn 19 Nefyn 11 Aberdaron 6 Trefor	289	955
2018	53 Aberdyfi 14 Tywyn	75 Abermaw	38	112 Total Boat Care 177 Hafan	34	161 Abersoch 31 Machroes 52 Morfa Nefyn 15 Nefyn 5 Aberdaron	290	1057
2019	55 Aberdyfi a Tywyn	66 Abermaw	33	97 Total Boat Care 172 Hafan	30	89 Abersoch 20 Machroes 60 Morfa Nefyn 14 Nefyn 12 Aberdaron	244	892

# HARBWR PORTHMADOG HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod Comparison of Boat Statistics

	2014	2015	2016	2017	2018	2019
<b>Nifer o Gychod /</b> Number of Boats	157	140	129	135	131	130
<b>Cyfanswm Hydoedd /</b> Total Overall Length	1260.68	1150.60	1055.12	1098.58	1055.13	1030.04
<b>Cyfartaledd Hyd /</b> Average Length	8.03	8.22	8.18	8.14	8.05	7.92
<b>Cyfanswm Dyfnder /</b> Total Draught	141.74	137.69	127.50	133.18	131.01	128.80
<b>Cyfartaledd Dyfnder</b> / Average Draught	0.90	0.98	0.99	0.99	1.00	0.99


Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hydoedd / Total Length




Cyfartaledd Hyd / Average Length



Cyfanswm Dyfnder / Total Draught



Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught





## *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig*

### Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwyllo a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

<i>Harbwr/Harbour Marina</i>	<i>Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings</i>	<i>Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring</i>	<i>Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats</i>	<i>Nifer Cychod Hwyllo Total number sailing boats</i>	<i>Canran (%) Pŵer V's hwyllo Percentage Power v's Sail</i>
Harbwr Aberdyfi 14	120	75	53	22	70.7% Pwer 29.3% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 15	120	77	53	24	68.8% Pwer 31.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 16	120	79	55	24	69.6% Pwer 30.4% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 17	120	78	56	22	71.8% Pwer 28.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 18	120	74	55	19	74.3 % Pwer 25.7% Hwyllo
<b>Harbwr Aberdyfi 19</b>	<b>120</b>	<b>68</b>	<b>54</b>	<b>14</b>	<b>79.4% Pwer 20.6% Hwyllo</b>
Tud. 17 Harbwr Abermaw 14	140	82	54	28	65.9% Pwer 34.1% Hwyllo
Harbwr Abermaw 15	140	93	60	33	64.5% Pwer 35.5% Hwyllo
Harbwr Abermaw 16	140	88	59	29	67.0% Pwer 33.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 17	140	86	55	31	64.0% Pwer 36.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 18	140	69	45	24	65.2% Pwer 34.8% Hwyllo
<b>Harbwr Abermaw 19</b>	<b>140</b>	<b>70</b>	<b>44</b>	<b>26</b>	<b>62.9% Pwer 37.1% Hwyllo</b>
Harbwr Porthmadog 14	238	157	54	103	34.4% Pwer 65.6% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 15	238	140	45	95	32.1% Pwer 67.9% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 16	238	129	41	88	31.8% Pwer 68.2% Hwyllo

	Harbwr Porthmadog 17	238	135	42	93	31.1% Pwer 68.9% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 18	238	131	40	91	30.5% Pwer 69.5% Hwyllo
	<b>Harbwr Porthmadog 19</b>	<b>238</b>	<b>130</b>	<b>42</b>	<b>88</b>	<b>32.3% Pwer</b> <b>67.7% Hwyllo</b>
	Harbwr Pwllheli 14	114	91	36	55	39.6% Pwer 60.4% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 15	114	87	46	41	52.9% Pwer 47.1% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 16	114	58	18	40	31.0% Pwer 69.0% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 17	114	60	19	41	31.7% Pwer 68.3% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 18	114	55	29	26	52.7% Pwer 47.3% Hwyllo
	<b>Harbwr Pwllheli 19</b>	<b>114</b>	<b>58</b>	<b>26</b>	<b>32</b>	<b>44.8% Pwer</b> <b>55.2% Hwyllo</b>
Tud. 18	Hafan Pwllheli 14	409	293	139	154	47.4% Pwer 52.6% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 15	409	292	138	154	47.3% Pwer 52.7% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 16	409	287	137	150	47.7% Pwer 52.3% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 17	409	306	144	162	47.1% Pwer 52.9% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 18	409	292	150	142	51.4% Pwer 48.6% Hwyllo
	<b>Hafan Pwllheli 19</b>	<b>409</b>	<b>299</b>	<b>133</b>	<b>166</b>	<b>44.5% Pwer</b> <b>55.5% Hwyllo</b>
	Doc Fictoria 14	100	100	36	64	36.0% Pwer 64.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 15	100	98	34	64	34.7% Pwer 65.3% Hwyllo
	Doc Fictoria 16	100	92	34	58	37.0% Pwer 63.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 17	100	92	28	64	30.4% Pwer 69.6% Hwyllo

Doc Fictoria 18	100	90	49	41	54.4% Pwer 45.6% Hwyllo
<b>Doc Fictoria 19</b>	<b>100</b>	<b>94</b>	<b>29</b>	<b>65</b>	<b>30.9% Pwer</b> <b>69.1% Hwyllo</b>
Cyfanswm 14	1121	798	372	426	46.6% Pwer 53.4% Hwyllo
Cyfanswm 15	1121	787	376	411	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
Cyfanswm 16	1121	733	344	389	46.9% Pwer 53.1% Hwyllo
Cyfanswm 17	1121	757	344	413	45.4% Pwer 54.6% Hwyllo
Cyfanswm 18	1121	709	367	342	51.8% Pwer 48.2% Hwyllo
<b>Cyfanswm 19</b>	<b>1121</b>	<b>719</b>	<b>328</b>	<b>391</b>	<b>45.6% Pwer</b> <b>54.4% Hwyllo</b>

# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2019


## COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2019




Harbwr Harbour	Nifer o Gychod Number of Boats	Cyfanswm Hydoedd Total Overall Length	Cyfartaledd Hyd Average Length	Cyfanswm Dyfnder Total Draught	Cyfartaledd Dyfnder Average Draught
<b>Abermaw</b>	<b>70</b>	<b>512.00</b>	<b>7.31</b>	<b>65.13</b>	<b>0.93</b>
<b>Aberdyfi</b>	<b>68</b>	<b>451.96</b>	<b>6.65</b>	<b>46.54</b>	<b>0.68</b>
<b>Porthmadog</b>	<b>130</b>	<b>1030.04</b>	<b>7.92</b>	<b>128.80</b>	<b>0.99</b>
<b>Pwllheli</b>	<b>58</b>	<b>425</b>	<b>7.32</b>	<b>47.52</b>	<b>0.81</b>
<b>Cyfansymiau holl harbrau Totals of all harbours</b>	<b>326</b>	<b>2419.00</b>	<b>29.20</b>	<b>287.99</b>	<b>3.41</b>
<b>Cyfartaleddau holl harbrau Averages of all harbours</b>	<b>81.50</b>	<b>604.75</b>	<b>7.30</b>	<b>72.00</b>	<b>0.85</b>

# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr. Analysis of boat statistics at each harbour.


### Nifer o Gychod / Number of Boats




### Cyfanswm Hyd / Total LOA




### Cyfartaledd Hyd / Average LOA



### Cyfanswm Dyfnder / Total Draught



### Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught



***Uned Morwrol / Maritime Unit***  
***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

<b><i>Harbwr Harbour</i></b>	<b><i>Nifer o Angorfeydd Available no of moorings</i></b>	<b><i>Preswlydd Occupancy</i></b>	<b><i>Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd</i></b>	<b><i>Erail Others</i></b>
<i>Aberdyfi 2014</i>	120	75 (62.5%)	35 (46.7%)	40 (53.3%)
<i>Aberdyfi 2015</i>	120	77 (64.2%)	35 (45.5%)	42 (54.5%)
<i>Aberdyfi 2016</i>	120	79 (65.8%)	36 (45.6%)	43 (54.4%)
<i>Aberdyfi 2017</i>	120	78 (65.0%)	36 (46.2%)	42 (53.8%)
<i>Aberdyfi 2018</i>	120	74 (61.7%)	37 (50.0%)	37 (50.0%)
<b><i>Aberdyfi 2019</i></b>	<b>120</b>	<b>68 (56.7%)</b>	<b>32 (47.1%)</b>	<b>36 (52.9%)</b>
<i>Abermaw 2014</i>	140	82 (58.6%)	54 (65.9%)	28 (34.1%)
<i>Abermaw 2015</i>	140	93 (66.4%)	63 (67.7%)	30 (32.3%)
<i>Abermaw 2016</i>	140	88 (62.9%)	60 (68.2%)	28 (31.8%)
<i>Abermaw 2017</i>	140	86 (61.4%)	59 (68.6%)	27 (31.4%)
<i>Abermaw 2018</i>	140	69 (49.3%)	44 (63.8%)	25 (36.2%)
<b><i>Abermaw 2019</i></b>	<b>140</b>	<b>70 (50.0%)</b>	<b>45 (64.3%)</b>	<b>25 (35.7%)</b>
<i>Porthmadog 2014</i>	238	157 (66.0%)	44 (28.0%)	113 (72.0%)
<i>Porthmadog 2015</i>	238	140 (58.8%)	44 (31.4%)	96 (68.6%)
<i>Porthmadog 2016</i>	238	129 (54.2%)	47 (36.4%)	82 (63.6%)
<i>Porthmadog 2017</i>	238	135 (56.7%)	54 (40.0%)	81 (60.0%)
<i>Porthmadog 2018</i>	238	131 (55.0%)	54 (41.2%)	77 (58.8%)
<b><i>Porthmadog 2019</i></b>	<b>238</b>	<b>130 (54.6%)</b>	<b>60 (46.2%)</b>	<b>70 (53.8%)</b>
<i>Pwllheli 2014</i>	114	91 (79.8%)	47 (51.6%)	44 (48.4%)
<i>Pwllheli 2015</i>	114	87 (76.3%)	57 (65.5%)	30 (34.5%)
<i>Pwllheli 2016</i>	114	58 (50.9%)	27 (46.6%)	31 (53.4%)
<i>Pwllheli 2017</i>	81	60 (74.1%)	28 (46.7%)	32 (53.3%)
<i>Pwllheli 2018</i>	81	55 (67.9%)	27 (49.1%)	28 (50.9%)
<b><i>Pwllheli 2019</i></b>	<b>81</b>	<b>58 (71.6%)</b>	<b>40 (69.0%)</b>	<b>18 (31.0%)</b>

<i>Hafan 2014</i>	409	293 (71.6%)	51 (17.4%)	242 (82.6%)
<i>Hafan 2015</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2016</i>	409	287 (70.1%)	55 (19.2%)	232 (80.8%)
<i>Hafan 2017</i>	409	306 (74.8%)	57 (18.6%)	249 (81.4%)
<i>Hafan 2018</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<b><i>Hafan 2019</i></b>	<b>409</b>	<b>299 (73.1%)</b>	<b>57 (19.1%)</b>	<b>242 (80.9%)</b>
<i>Dco Fictoria 2014</i>	100	100 (100.0%)	25 (25.0%)	75 (75.0%)
<i>Doc Fictoria 2015</i>	100	100 (100.0%)	21 (21.0%)	79 (79.0%)
<i>Doc Fictoria 2016</i>	100	92 (92.0%)	19 (20.7%)	73 (79.3%)
<i>Doc Fictoria 2017</i>	100	92 (92.0%)	16 (17.4%)	76 (82.6%)
<i>Doc Fictoria 2018</i>	100	90 (90.0%)	21 (23.3%)	69 (76.7%)
<b><i>Doc Fictoria 2019</i></b>	<b>100</b>	<b>94 (94.0%)</b>	<b>20 (21.3%)</b>	<b>74 (78.7%)</b>



# Harbwr Porthmadog Harbour

Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf


The channel changes it's course on a regular basis, it's advised to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.

01766 512927 / 07879 433 147

VHF:12 / 16

18/09/2019

Traeth y Graig Ddu  
Black Rock Sands



Nid yw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo  
Not to be used for navigation

Tud. 24



52° 52.970 N 004° 11.200 W


Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda drafft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.

The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water, vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water

Cyngor Gwynedd Council  
Uned Morwrol a Pharciau Gwledig  
Maritime & Country Parks Unit  
Tel, 01758 704 066

Malcolm Humphreys

Harbwr Feistr Porthmadog Harbour Master





**Harbwr Porthmadog Harbour**  
 Lleoliad Cyfredol Cymhorthyddion Mordwyo  
 Present Positions of Aids to Navigation  
 17/09/2019

Fairway	LFlw 10s	52° 52.970 N	004° 11.200 W
1	Q FL G	52° 52.988 N	004° 10.626 W
2	Q FL R	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
3	FL G 3s	52° 53.317 N	004° 10.017 W
4	FL R(2)5s	52° 54.478 N	004° 09.669 W
5	FL G(2)5s	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
6	FL R (3)10s	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
7	FL G (3)10s	52° 53.681 N	004° 09.471 W
8	FL R (4)15s	Off Station	Off station
9	FL G (4)15s	52° 53.957 N	004° 09.095 W
10	FL R 2.5s	52° 54.231 N	004° 08.883 W
11	FL G (5) 20s	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
12	FL R 4s	52° 54.620 N	004° 08.424 W
13	FL G 2s	52° 54.425 N	004° 08.741 W
Temp	Unlit / Diola	52° 54.561 N	004° 08. 714 W
14	FL R 6s	52° 54.863 N	004° 08.942 W
15	FL G (2) 5s	52° 54.586 N	004° 08.584 W
17	FL G 6s	52° 55.015 N	004° 07.866 W